Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Staff Estyn

Taflen wybodaeth

Blwch gwybodaeth

I gael mwy o gyngor, cysylltwch â: Y Grŵp Rheoli Gwybodaeth

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2018

Rheoli fersiwn

Fersiwn y ddogfen	Awdur	Dyddiad cyhoeddi	Newidiadau a wnaed
1.1	Y Grŵp Rheoli Gwybodaeth	Medi 2018	Polisi newydd

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cynhaliwyd asesiad rhesymwaith busnes ac mae'r polisi hwn yn cyfrannu at amcanion strategol ac egwyddorion cyflawni Estyn.

Yn unol ag Asesiad Estyn o Effaith ar Gydraddoldeb, gwnaed asesiad sgrinio effaith gychwynnol ac nid ystyrir bod y polisi hwn yn effeithio'n niweidiol ar y naw nodwedd warchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Cynnwys		Tudalen

1	Gwybodaeth gyffredinol	1
2	Pa wybodaeth bersonol rydym ni'n ei dal amdanoch chi?	2
3	At ba ddiben byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol a beth yw ein sail gyfreithiol dros wneud?	3
4	Pa wybodaeth bersonol categori arbennig rydym ni'n ei dal amdanoch chi?	4
5	At ba ddiben byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol categori arbennig a beth yw ein seiliau cyfreithiol dros wneud?	5
6	Rhagor o wybodaeth gyffredinol am ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol	6
7	Gyda phwy rydym ni'n rhannu'ch gwybodaeth?	6
8	Trosglwyddo'ch gwybodaeth yn rhyngwladol	8
9	Am ba hyd rydym ni'n cadw'ch gwybodaeth?	8
10	Hawliau unigolion	8
11	Y gallu i dynnu cydsyniad yn ôl	9
12	Cywirdeb	10
13	Diweddariadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn	10
14	Amdanom ni	10
15	At bwy i droi os hoffech ragor o wybodaeth am eich hawliau neu os hoffech gwyno	10
16	Cysylltu â ni	10

1 Gwybodaeth Gyffredinol

Rydym yn ymroi i amddiffyn preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol.

O dan gyfraith diogelu data, rydym ni'n "rheolwr data". Mae hyn yn golygu ein bod yn dal gwybodaeth bersonol am unigolion ac yn gyfrifol am benderfynu sut rydym yn storio ac yn defnyddio'r wybodaeth bersonol honno.

Fel rheolwr data, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni ddarparu gwybodaeth benodol i unigolion yr ydym yn casglu, yn cael, yn storio ac yn defnyddio eu gwybodaeth bersonol. Mae'r wybodaeth benodol honno wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon (ein "hysbysiad preifatrwydd").

Mae'n bwysig iawn eich bod chi'n darllen y ddogfen hon (ynghyd ag unrhyw hysbysiadau preifatrwydd y gallem eu darparu i chi ar adegau penodol), fel eich bod yn gwybod sut a pham rydym ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol.

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn berthnasol i holl gyflogeion Estyn – staff parhaol, cyfnod penodol ac asiantaeth, a staff ar secondiad neu ar fenthyg.

Byddwn yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data. Mae hwn yn datgan bod yn rhaid i'r wybodaeth bersonol rydym yn ei dal amdanoch chi:

1 Gael ei defnyddio'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw
2 Cael ei chasglu at ddibenion dilys yr ydym wedi'u hesbonio'n glir i chi ac na chaiff ei defnyddio mewn unrhyw ffordd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny
3 Bod yn berthnasol i'r dibenion yr ydym wedi dweud wrthych amdanynt a chael ei chyfyngu i'r dibenion hynny yn unig
4 Bod yn gywir a chael ei chadw'n gyfredol
5 Cael ei chadw mor hir ag y bo'i hangen yn unig at y dibenion yr ydym wedi dweud wrthych amdanynt
6 Cael ei chadw'n ddiogel

2 Pa wybodaeth bersonol rydym ni'n ei dal amdanoch chi?

Fel cyflogai i Estyn, byddwn yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth bersonol benodol amdanoch pan fyddwch yn dechrau gweithio gyda ni ac yn ystod eich cyflogaeth/penodiad.

Mae cyfraith diogelu data yn amddiffyn gwybodaeth bersonol sef, yn ei hanfod, unrhyw wybodaeth y gellir adnabod unigolyn ohoni. Mae amddiffyniad ychwanegol ar gyfer un math o wybodaeth bersonol oherwydd ei natur sensitif neu breifat; fe'i gelwir weithiau'n 'wybodaeth bersonol categori arbennig', sef gwybodaeth bersonol am hil, tras ethnig, barn wleidyddol, crefydd neu gredoau athronyddol, aelodaeth undeb llafur (neu ddiffyg aelodaeth), gwybodaeth geneteg a gwybodaeth biometrig unigolyn (lle y'i defnyddir i ddangos pwy yw unigolyn) a gwybodaeth am iechyd, iechyd rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn.

Mae'r wybodaeth hon naill ai'n cael ei chasglu'n uniongyrchol oddi wrthoch chi neu, weithiau, gan asiantaeth cyflogaeth neu ddarparwr gwiriadau cefndir. Weithiau, byddwn yn casglu gwybodaeth ychwanegol gan drydydd parti, gan gynnwys cyn-gyflogwyr/cyflogwyr eraill, asiantaethau gwirio credyd neu asiantaethau gwiriadau cefndir eraill, gweinyddwr pensiwn, gweithwyr meddygol proffesiynol, cyflogeion eraill, y Swyddfa Gartref, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cyfleusterau mewnrwyd a rhyngrwyd.

Gall y wybodaeth a gasglwn yn ystod eich cyflogaeth/penodiad gyda ni gynnwys:

- eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt*
- eich dyddiad geni*
- eich rhywedd
- manylion am eich teulu
- eich addysg a'ch cymwysterau*
- eich medrau, profiad ac aelodaeth o gyrff proffesiynol*
- eich rhif Yswiriant Gwladol a'ch cod treth*
- eich manylion cyswllt mewn argyfwng a'ch perthynas agosaf
- eich manylion banc, manylion cyflogres a gwybodaeth am eich statws treth*
- manylion eich cyflog, gwyliau blynyddol, pensiwn a buddion
- tystiolaeth o'ch gallu i weithio yn y DU, eich cenedligrwydd a'ch statws o ran mewnfudo (bydd angen darparu tri math o wybodaeth adnabod)*
- gallu'r Gymraeg
- gwybodaeth a ddarperir amdanoch gan eich cyflogwr (cyflogwyr) blaenorol a chanolwyr eraill
- eich hanes cyflogaeth
- gwybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses recriwtio, yr ydym yn eich cadw yn ystod eich cyflogaeth
- eich telerau ac amodau gwaith (e.e. tâl, oriau gwaith, gwyliau, buddion, trefniadau gweithio gartref)
- manylion unrhyw swyddi neu benodiadau neu fuddiannau busnes eraill sydd gennych
- unrhyw ddamweiniau'n gysylltiedig â gwaith
- unrhyw hyfforddiant a wnaed gennych

- unrhyw geisiadau am weithio hyblyg
- unrhyw faterion disgyblu, achwyno neu faterion eraill yn gysylltiedig â'ch cyflogaeth/penodiad neu yr ydych yn gallu darparu gwybodaeth yn ymwneud â nhw
- eich cofnod presenoldeb ac amser i ffwrdd (e.e. gwyliau, oriau hyblyg, absenoldeb oherwydd salwch, absenoldeb teuluol, absenoldeb arbennig)
- adolygiadau o'ch perfformiad a'ch cyfnod prawf
- unrhyw wybodaeth bersonol arall yr ydych yn ei rhannu gyda ni, gan gynnwys eich ffordd o fyw a'ch amgylchiadau cymdeithasol
- unrhyw addasiad(au) rhesymol a wnaed i'ch rôl neu i'ch gwaith o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- gwybodaeth am eich defnydd ar ein systemau TG, cyfathrebu a systemau eraill

Gofynnir am rywfaint o'r data personol oherwydd gofyniad cyfreithiol neu gytundebol i gael a defnyddio'r wybodaeth, neu mae angen darparu'r wybodaeth er mwyn gallu llunio contract â chi (amlygir y wybodaeth hon â * uchod). Bydd methu darparu gwybodaeth benodol yn ein hatal ni rhag eich penodi chi neu gyflawni'r contract a wnaed gyda chi.

3 At ba ddiben byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol a beth yw ein sail gyfreithiol dros wneud?

Defnyddiwn y wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch at nifer o ddibenion gwahanol, sy'n cael eu rhestru isod. O dan gyfraith diogelu data, mae'n rhaid bod gennym sail gyfreithiol ddilys dros ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol; amlinellwn isod y seiliau cyfreithiol y byddwn yn dibynnu arnynt hefyd.

Defnyddiwn y wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch am y rhesymau canlynol:

- cydymffurfio a dangos cydymffurfiad â'n rhwymedigaethau cyfreithiol, fel gwirio bod gennych hawl gyfreithiol i weithio yn y DU, didynnu cyfraniadau PAYE ac Yswiriant Gwladol, cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a chydymffurfio â chyfreithiau cyflogaeth eraill
- atal twyll
- cydymffurfio â rhwymedigaethau iechyd a diogelwch
- cydymffurfio a dangos cydymffurfiad ag unrhyw ofynion rheoleiddiol

Yn yr achosion hyn, y sail gyfreithiol y byddwn yn dibynnu arni i brosesu eich gwybodaeth bersonol yw ei bod yn angenrheidiol i ni ei phrosesu er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol.

Hefyd, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch am y rhesymau canlynol:

- cydymffurfio â'n contract gyda chi, a'i orfodi, a rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau

- eich talu chi a rhoi unrhyw fuddion i chi y mae gennych hawl iddynt, gan gynnwys pensiwn
- at ddibenion gweinyddu contract neu gyflogaeth yn gyffredinol

Ym mhob un o'r achosion hyn, y sail gyfreithiol y dibynnwn arni ar gyfer prosesu eich gwybodaeth bersonol yw ei bod yn angenrheidiol ei phrosesu er mwyn cyflawni'r contract rhyngom ni.

Hefyd, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch am y rhesymau canlynol:

- delio ag unrhyw faterion disgyblu ac achwyno a allai godi mewn perthynas â chi neu y gallech ddarparu gwybodaeth berthnasol amdanynt
- cofnodi'ch absenoldebau o'r gwaith a'ch amser i ffwrdd
- adolygu a rheoli eich perfformiad a'ch datblygiad
- galluogi cynllunio a rheoli busnes, gan gynnwys cyfrifyddu ac archwilio
- ymateb i geisiadau am eirda
- monitro cydymffurfiaeth ag unrhyw rai o'n polisïau a'n gweithdrefnau
- cynnal adolygiadau o berfformiad, rheoli perfformiad a phennu gofynion perfformio
- gwneud penderfyniadau am iawndal
- asesu cymwysterau ar gyfer swydd neu dasg benodol, gan gynnwys penderfyniadau am ddyrchafiadau
- gwneud penderfyniadau am eich cyflogaeth neu eich penodiad parhaus
- gwneud trefniadau ar gyfer terfynu ein perthynas waith
- asesu gofynion addysg, hyfforddiant a datblygiad
- monitro'ch defnydd ar ein systemau gwybodaeth a chyfathrebu
- sicrhau diogelwch y rhwydwaith a gwybodaeth, gan gynnwys atal mynediad anawdurdodedig at ein systemau cyfathrebu electronig a chyfrifiadurol, ac atal dosbarthu meddalwedd faleisus
- cynnal astudiaethau dadansoddi data, er enghraifft i adolygu cyfraddau cadw ac ymadael cyflogeion, a'u deall yn well

Yn yr achosion hyn, y sail gyfreithiol y byddwn yn dibynnu arni i brosesu eich gwybodaeth bersonol fydd bod hynny'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddwyd i Estyn, fel y'i hamlinellir mewn deddfwriaeth, sef Deddf Addysg 2005, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Plant 2004, fel y'u diwygir o dro i dro.

4 Pa wybodaeth bersonol categori arbennig rydym ni'n ei dal amdanoch chi?

Bydd angen i ni gadw rhywfaint o wybodaeth bersonol categori arbennig amdanoch a allai fod yn berthnasol i'ch cyflogaeth, fel:

- eich tras hiliol neu ethnig
- eich credoau crefyddol neu athronyddol
- aelodaeth o undeb llafur

- eich iechyd corfforol neu iechyd meddwl (gan gynnwys manylion unrhyw anabledd)
- eich cyfeiriadedd rhywiol
- manylion unrhyw anabledd hysbys
- datganiad cymeriad
- cyflawni trosedd neu honiad o gyflawni trosedd gennych, gan gynnwys canlyniadau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)

5 At ba ddiben byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol categori arbennig a beth yw ein seiliau cyfreithiol dros wneud?

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth bersonol categori arbennig yr ydym yn ei dal amdanoch at nifer o ddibenion gwahanol, yr ydym yn eu rhestru isod. Mae cyfraith diogelu data yn ein hatal rhag prosesu unrhyw wybodaeth bersonol categori arbennig oni bai ein bod ni'n gallu bodloni o leiaf un o'r amodau a osodir gan gyfraith diogelu data. Hefyd, rydym yn amlinellu isod yr amodau penodol yr ydym yn dibynnu arnynt wrth brosesu data categori arbennig.

Defnyddiwn y wybodaeth bersonol categori arbennig yr ydym yn ei dal amdanoch i fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn yr achos hwn, yr amod yr ydym yn dibynnu arno ar gyfer prosesu'r wybodaeth yw monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth, sy'n angenrheidiol am resymau budd cyhoeddus sylweddol, sef at ddibenion nodi neu adolygu'n barhaus fodolaeth neu absenoldeb cyfle neu driniaeth gyfartal rhwng grwpiau o bobl a bennir mewn perthynas â'r categori hwnnw, gyda'r nod o alluogi cydraddoldeb o'r fath i gael ei hyrwyddo neu ei gynnal.

Hefyd, defnyddiwn y wybodaeth bersonol categori arbennig yr ydym yn ei dal amdanoch at y dibenion canlynol:

- cydymffurfio a dangos cydymffurfiad â chyfraith cyflogaeth ac arferion cyflogaeth gorau, ac unrhyw gyfreithiau perthnasol eraill
- cydymffurfio a dangos cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion rheoleiddiol
- delio ag unrhyw faterion disgyblu ac achwyno a allai godi mewn perthynas â chi neu eraill neu y gallwch ddarparu gwybodaeth berthnasol amdanynt i ni
- cofnodi eich absenoldebau o'r gwaith
- rhoi unrhyw fuddion iechyd i chi y gallai fod gennych yr hawl i'w cael
- asesu eich addasrwydd i weithio
- gweinyddu'ch aelodaeth o undeb llafur
- gwneud unrhyw addasiadau rhesymol i'ch rôl

Yn yr achosion hyn, yr amodau y byddwn yn dibynnu arnynt ar gyfer prosesu'r wybodaeth yw ei bod yn angenrheidiol at ddibenion cyflawni ymrwymiadau ac arfer hawliau penodol ym maes cyfraith cyflogaeth.

Mewn achosion pan fydd hawliad wedi'i ddwyn yn erbyn Estyn neu mae risg bosibl anghydfod neu hawliad cyfreithiol, mae'n bosibl y bydd angen i ni brosesu'ch gwybodaeth bersonol categori arbennig pan fo angen hynny i sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

Gall fod amgylchiadau pan fydd angen i ni brosesu'ch gwybodaeth bersonol categori arbennig, yn enwedig yn gysylltiedig â'ch iechyd, pan fo angen hynny i amddiffyn eich buddiannau chi (neu fuddiannau rhywun arall) ac nid oes gennych y gallu i gydsynio.

Rhagwelwn y byddwn yn dal rhywfaint o wybodaeth am euogfarnau troseddol.

Ni fyddwn yn casglu gwybodaeth am euogfarnau troseddol oni bai bod hynny'n briodol o ystyried natur y rôl a gallwn wneud hynny yn ôl y gyfraith. Lle y bo'n briodol, byddwn yn casglu gwybodaeth am euogfarnau troseddol fel rhan o'r broses recriwtio neu gallem gael gwybod gennych yn uniongyrchol am wybodaeth o'r fath wrth i chi weithio gyda ni.

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am euogfarnau troseddol lle y bo'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny yn unig. Bydd hyn fel arfer pan fydd prosesu o'r fath yn angenrheidiol er budd sylweddol y cyhoedd, sef, atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon, diogelu'r cyhoedd rhag anonestrwydd, diogelu, atal twyll, neu amheuaeth o derfysgaeth neu wyngalchu arian.

Yn llai cyffredin, gallem ddefnyddio gwybodaeth am euogfarnau troseddol lle y bo'n angenrheidiol yn gysylltiedig â hawliadau cyfreithiol, lle y bo'n angenrheidiol i amddiffyn eich buddiannau chi (neu fuddiannau rhywun arall) ac nid oes gennych y gallu i gydsynio, neu pan fyddwch eisoes wedi datgelu'r wybodaeth yn gyhoeddus.

6 Rhagor o wybodaeth gyffredinol am ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol

Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol at y dibenion y gwnaethom ei chasglu yn unig, oni ystyriwn yn rhesymol fod arnom angen ei defnyddio am reswm arall a bod y rheswm hwnnw yn gydnaws â'r diben gwreiddiol. Os bydd arnom angen defnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddiben nad yw'n gysylltiedig, byddwn yn rhoi gwybod i chi ac yn esbonio'r sail gyfreithiol sy'n caniatáu i ni ei defnyddio fel hyn.

Sylwch, gallem brosesu eich gwybodaeth bersonol heb yn wybod i chi a heb eich cydsyniad, yn unol â'r rheolau uchod, pan fo'r gyfraith yn caniatáu neu'n gofyn am hyn.

7 Gyda phwy rydym ni'n rhannu'ch gwybodaeth?

Bydd eich data personol yn cael ei ddal gan Estyn. Bydd eich data personol yn cael ei rannu'n fewnol gydag unigolion a/neu adrannau eraill lle y bo angen rhesymol am hyn at y dibenion prosesu a amlinellir yn adran 3 uchod. Er enghraifft, bydd angen rhannu rhywfaint o wybodaeth bersonol cyflogeion Estyn gyda phroseswyr cyflogres Llywodraeth Cymru er mwyn eich talu chi. Hefyd, bydd mynediad cyfyngedig gan arolygwyr at broffiliau arolygwyr eraill sy'n cymryd rhan mewn arolygiadau er mwyn rheoli'r arolygiad yn effeithiol.

O bryd i'w gilydd, bydd arnom angen rhannu'ch gwybodaeth gyda phobl a sefydliadau allanol. Byddwn yn gwneud hynny pan fydd gennym sail gyfreithiol neu gyfreithlon yn unig i wneud hynny, gan gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan gyfreithiau diogelu data.

Gallai eich gwybodaeth gael ei datgelu i:

- **Lywodraeth Cymru a'i hasiantau** fel y gall cyflogau a phensiynau gael eu cyfrifo'n gywir
- **sefydliadau'r ydym yn eu harolygu** a fydd yn cael manylion cyswllt Arolygwyr perthnasol a staff perthnasol eraill er mwyn gallu cysylltu â nhw am faterion yn ymwneud ag arolygu
- **Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM)** mewn cysylltiad â'ch tâl a'ch buddion
- **ein banc a'n biwro BACS** mewn cysylltiad ag unrhyw daliadau a wneir i chi
- **darparwyr pensiwn My Civil Service Pension** i ddarparu a gweinyddu'ch pensiwn
- **ein darparwr cyflogres (trwy Lywodraeth Cymru)** fel y gallwn eich talu chi
- **cwmnïau a busnesau sy'n darparu neu'n gweinyddu unrhyw fuddion a gynigiwn**, er enghraifft, os ydych chi wedi dewis talebau gofal plant, byddwn yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda darparwr y talebau gofal plant
- **pobl eraill sy'n ein helpu** i redeg ein busnes, er enghraifft darparwyr cymorth TG
- **ein hyswirwyr a'n broceriaid yswiriant** sy'n darparu yswiriant cynhwysfawr i ni yn erbyn risgiau rhedeg busnes
- **asiantaethau cyflogaeth a recriwtio a sefydliadau lleoliadau allanol**
- **cyrff proffesiynol a rheoleiddwyr** fel Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, y Cyfrin Gyngor.
- **datganiadau statudol i sefydliadau'r llywodraeth** fel Swyddfa'r Cabinet, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, y Fenter Twyll Genedlaethol.
- **ein cynghorwyr proffesiynol** gan gynnwys ein harchwilwyr, Swyddfa Archwilio Cymru, wrth gynnal archwiliadau mewnol ac allanol
- **lechyd Galwedigaethol a gweithwyr proffesiynol meddygol eraill, gan gynnwys sefydliadau cymdeithasol a lles,** i ddarparu barn feddygol i ni mewn perthynas ag unrhyw gyflwr meddygol, salwch neu anabledd sydd gennych neu y gallech ei ddatblygu yn ystod eu cyflogaeth/penodiad
- **yr Heddlu, awdurdodau lleol, y llysoedd** ac unrhyw awdurdod arall y llywodraeth, os byddant yn gofyn i ni ei datgelu (cyn belled ag y bo'n gyfreithlon i ni wneud yn unig).
- **y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a Due Diligence Checking (DDC), cwmni ymbarél y GDG**
- **pobl eraill sy'n gwneud cais gwrthrych am wybodaeth**, lle y mae'r gyfraith yn caniatáu i ni ei datgelu
- **achwynwyr,** pan fo hyn yn angenrheidiol i ymateb i unrhyw gwynion sy'n dod i law
- **pobl eraill pan fo rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i'w datgelu**, e.e. i gydymffurfio â gorchymyn llys
- **darpar gyflogwyr** er mwyn ymateb i geisiadau am eirda
- **sefydliadau addysgol, cyrff arholi, darparwyr cyrsiau** mewn perthynas ag unrhyw hyfforddiant rydych chi'n ymgymryd ag ef neu wedi ymgymryd ag ef

- **eich teulu neu eich cynrychiolwyr**

8 Trosglwyddo'ch gwybodaeth yn rhyngwladol

Nid ydym yn trosglwyddo unrhyw ddata personol amdanoch y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

9 Am ba hyd rydym ni'n cadw'ch gwybodaeth?

I wneud yn siŵr ein bod yn bodloni'n rhwymedigaethau diogelu data a phreifatrwydd, byddwn yn dal eich gwybodaeth am ba hyd bynnag y mae gwir angen arnom amdani at y dibenion y gwnaethom ei chaffael yn y lle cyntaf.

Gan amlaf, mae hyn yn golygu y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth am ba hyd bynnag y mae ei hangen, fel yr amlinellir yn ein Polisi Cadw.

I bennu'r cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, rydym yn ystyried swm, natur a sensitifrwydd y data personol, risg bosibl niwed yn sgil defnydd anawdurdodedig o'ch data personol, neu ei datgelu'n anawdurdodedig, at ba ddibenion yr ydym yn prosesu'ch data personol a ph'un a allwn gyflawni'r dibenion hynny trwy ddulliau eraill, a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

10 Hawliau unigolion

Mae deddfwriaeth diogelu data yn rhoi nifer o hawliau gwahanol i unigolion yn gysylltiedig â'u data. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod ac maent yn berthnasol o dan rai amgylchiadau.

Gwneud cais am fynediad at eich gwybodaeth bersonol (a elwir yn gyffredin fel "cais gwrthrych data am wybodaeth"). Mae hyn yn eich galluogi i gael copi o'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch a gwirio ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithiol.

Gwneud cais am gywiro'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch. Trwy hyn, gallwch sicrhau bod unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir yr ydym yn ei dal amdanoch yn cael ei chywiro.

Gwneud cais i ddileu eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu dynnu gwybodaeth bersonol lle nad oes gennym reswm da dros barhau i'w phrosesu. Hefyd, mae gennych yr hawl i ofyn i ni ddileu neu dynnu'ch gwybodaeth bersonol lle'r ydych wedi arfer eich hawl i wrthwynebu ei phrosesu (gweler isod).

Gwrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol lle'r ydym yn dibynnu ar fudd cyfreithlon (neu fudd trydydd parti) ac mae rhywbeth am eich sefyllfa bersonol sy'n peri eich bod am wrthwynebu ei phrosesu ar y sail hon. Hefyd, mae gennych yr hawl i wrthwynebu pan fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Gwneud cais i gyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni atal prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch dros dro, er enghraifft os ydych eisiau i ni sefydlu cywirdeb y wybodaeth neu'r rheswm dros ei phrosesu.

Gwneud cais cludadwyedd data mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol. O dan rai amgylchiadau, gall fod gennych yr hawl i fynnu ein bod yn darparu copi electronig i chi o'ch gwybodaeth bersonol, naill ai at eich defnydd eich hun neu fel y gallwch ei rhannu gyda sefydliad arall. Lle y bo'r hawl hon yn berthnasol, gallwch ofyn i ni drosglwyddo'ch data personol yn uniongyrchol i'r parti arall, lle y bo'n ymarferol.

Os byddwch am adolygu, gwirio, cywiro neu wneud cais am ddileu eich gwybodaeth bersonol, gwrthwynebu prosesu eich data personol, neu wneud cais i ni drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol i barti arall, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data ar ymholiadau@estyn.llyw.cymru neu trwy ysgrifennu at:

Swyddog Diogelu Data
Estyn,
Llys Angor,
Heol Keen,
Caerdydd.
CF24 5JW

Ni fydd yn rhaid i chi dalu ffi i gael at eich gwybodaeth bersonol (nac i arfer yr un o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, gallem godi ffi resymol os bydd eich cais am fynediad yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol. Fel arall, gallem wrthod cydymffurfio â'r cais o dan amgylchiadau o'r fath.

Mae'n bosibl y bydd angen i ni ofyn i chi am wybodaeth benodol i'n helpu i gadarnhau pwy ydych a sicrhau bod gennych hawl i gael at y wybodaeth (neu i arfer un o'ch hawliau eraill). Mae hwn yn fesur diogelwch priodol arall i sicrhau na chaiff gwybodaeth bersonol ei datgelu i unrhyw unigolyn nad oes ganddo'r hawl i'w chael.

Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein Polisi Mynediad at Wybodaeth.

11. Y gallu i dynnu cydsyniad yn ôl

Lle y caiff eich data personol ei brosesu ar sail eich cydsyniad neu'ch cydsyniad penodol, mae gennych yr hawl i dynnu'ch cydsyniad i'r prosesu yn ôl ar unrhyw adeg. Gallwch wneud hyn drwy anfon e-bost at ymholiadau@estyn.llyw.cymru. Ni fydd tynnu cydsyniad yn ôl yn effeithio ar gyfreithlondeb prosesu'ch data personol ar sail cydsyniad cyn rhoi gwybod eich bod yn tynnu cydsyniad yn ôl.

12. Cywirdeb

Os bydd unrhyw rai o'ch manylion personol yn newid yn ystod eich cyflogaeth/penodiad, dylech gysylltu â'r tîm Adnoddau Dynol neu ddiwygio'ch cofnod Tensor a'ch Proffil Arolygydd, os yw'n berthnasol, i'w hysbysu nhw a darparu'r wybodaeth gywir gyfredol iddynt. Fel mater o drefn, byddwn yn anfon e-bost yn flynyddol i atgoffa pawb am yr angen i sicrhau bod y data personol yr ydych wedi'i ddarparu i ni yn gywir.

13 Diweddariadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn

Rydym yn adolygu'r ffyrdd yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth yn rheolaidd. Wrth wneud hynny, gallem newid y math o wybodaeth yr ydym yn ei chasglu, sut rydym yn ei storio, gyda phwy yr ydym yn ei rhannu a sut rydym yn gweithredu arni.

O ganlyniad, bydd angen i ni newid yr hysbysiad preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd i'w gadw'n gywir ac yn gyfredol.

14 Amdanom Ni

Estyn yw rheolwr data'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu i ni. Mae'r term "rheolwr data" yn ymadrodd cyfreithiol a ddefnyddir i ddisgrifio'r unigolyn neu'r endid sy'n rheoli'r ffordd y caiff gwybodaeth ei defnyddio a'i phrosesu.

15 At bwy i droi os hoffech ragor o wybodaeth am eich hawliau neu os hoffech gwyno

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rheoleiddio materion diogelu data a phreifatrwydd yn y DU. Maent yn rhoi llawer o wybodaeth ar eu gwefan ac yn sicrhau bod manylion cofrestredig yr holl reolwyr data, fel ni, ar gael yn gyhoeddus. Gallwch gael at y rhain fan hyn http://www.ico.gov.uk/for_the_public.aspx.

Gallwch gwyno i'r ICO ar unrhyw adeg am y ffordd yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio y byddech yn ystyried codi unrhyw broblem neu gŵyn sydd gennych gyda ni i ddechrau. Byddwn bob amser yn gwneud ein gorau i ddatrys unrhyw broblemau sydd gennych.

16 Cysylltu â ni

Mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod eich gwybodaeth ar unrhyw adeg.

Rydym wedi penodi Swyddog Diogelu Data i oruchwylio'r gwaith o gydymffurfio â'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn neu sut rydym yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data.

Gallwch gysylltu â ni fel a ganlyn:

Cyfeiriad post	Estyn Llys Angor Heol Keen Caerdydd CF24 5JW
Cyfeiriad e-bost	Ymholiadau@estyn.llyw.cymru
Rhif ffôn	029 2044 6446